**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cyflawni Corfforaethol Diogelu Pobl a Threchu Tlodi

**Cyfarfod Aml-Leoliad - Ystafell Gloucester, Neuadd y Ddinas / MS Teams**

**Dydd Llun, 25 Gorffennaf 2022 am 4.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd C R Evans (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) | Y Cynghorydd(wyr) |
|---|---|---|
| R Fogarty | Y V Jardine | A J Jeffery |
| H Lawson | A J O'Connor | J E Pritchard |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Julie Davies | Pennaeth y Gwasanaethau Plant a Theuluoedd |
| Amy Hawkins | Pennaeth Dros Dro'r Gwasanaethau i Oedolion |
| Simon Jones | Arweinydd Strategol y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant, Gwasanaethau Cymdeithasol |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Anthony Richards | Rheolwr Datblygu Strategaeth Tlodi a'I Atal |
| Lisa Thomas | Uwch-gyfreithiwr |

**Hefyd yn bresennol**

| | |
|---|---|
| L S Gibbard | Aelod y Cabinet dros Wasanaethau Gofal |
| H J Gwilliam | Aelod y Cabinet dros Gymunedau (Cymorth) |
| A Pugh | Aelod y Cabinet dros Les |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): J P Curtice a/ac L V Walton

---

## 11 Derbyn datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 12 Cofnodion:

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion Pwyllgor Cyflawni Corfforaethol Diogelu Pobl a Threchu Tlodi a gynhaliwyd ar 27 Mehefin 2022 a'u llofnodi fel cofnod cywir.

**13 Rhaglen Waith y Pwyllgor Cyflawni Corfforaethol Diogelu Pobl a Threchu Tlodi 2022-23.**

Cyflwynodd Simon Jones, Swyddog Strategaeth a Gwella Perfformiad y Gwasanaethau Cymdeithasol, amlinelliad drafft o'r rhaglen waith ar gyfer 2022-23 i'r Pwyllgor Cyflawni Corfforedig Diogelu Pobl a Threchu Tlodi a thynnwyd sylw at yr hyn yr oedd y Pwyllgor am ei gyflawni o ran amcanion polisi.

**Penderfynwyd:**

1) Cymeradwyo'r rhaglen waith arfaethedig ar gyfer 2022-23 a amlinellwyd ym mharagraff 2.2 yr adroddiad;
2) Y bydd yr Asesiad Effaith yn cael ei fonitro'n barhaol er mwyn gwella'i effaith mewn ffordd gadarnhaol;
3) Bod yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried yn y cyfarfodydd a drefnwyd isod:

   26 Medi 2022:
   - Creu gweithlu i gyflwyno rhagor o wasanaethau gofal yn uniongyrchol;
   - Strategaeth Gwirfoddoli (diweddariad);
   - Polisi Dyledion Corfforaethol (diweddariad);

   24 Hydref 2022:
   - Polisi/Canllaw Arfer Gorau Cydlynu Ardaloedd Lleol gan gynnwys recriwtio.

4) Cynhelir gweithdai yn ôl y galw.

Daeth y cyfarfod I ben am 4.41 pm

**Cadeirydd**